



Ein cyf/Our ref: MA-MDFWL-3074-25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

9 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety i Ymwelwyr (Cymru)

Diolch am eich craffu ar Fil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety i Ymwelwyr (Cymru), eich adroddiad, a'r argymhellion cysylltiedig. Roedd yr argymhellion hynny'n cynnwys ceisiadau am ragor o wybodaeth cyn trafodaeth y Senedd am egwyddorion cyffredinol y Bil wedi'i drefnu ar gyfer 13 Ionawr. Rwyf wedi cynnwys ymatebion i'r ceisiadau hynny yn y llythyr hwn.

Gofynnodd y Pwyllgor imi esbonio sut yr oeddwn wedi asesu bod y Bil yn gyson ag Erthygl 1 o Brotocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, gan gynnwys y sail dros ddod i'r casgliad y gellir cyfiawnhau bod yr ymyrryd â hawliau eiddo er budd y cyhoedd, a bod gan ddarpariaethau'r Bil sail resymol a'i fod yn taro cydbwysedd teg rhwng budd y cyhoedd a diogelu hawliau unigolyn.

Fel y gwyddoch, rhaid i bob bil Senedd fod yn gyson â hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol er mwyn iddo fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly'r gyfraith. Yn unol â hynny, wrth ddatblygu unrhyw Fil y Llywodraeth mae'r effeithiau ar hawliau'r Confensiwn yn cael eu hystyried.

Fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil, ein casgliad oedd bod y Bil yn gyson â hawliau'r Confensiwn, gan gynnwys yr hawl i fwynhau eiddo'n heddychlon o dan Erthygl 1 o Brotocol 1.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil yn amlinellu ei bwrpas: hyrwyddo datblygu twristiaeth yng Nghymru, y mecanwaith mae'n ei ddefnyddio i gyflawni'r diben hwnnw,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cefnidir y Bil a'r achos dros newid. Mae hyn yn esbonio'r angen am y Bil hwn, beth y bwriedir iddo ei gyflawni a pham mae hyn er budd y cyhoedd.

Roedd yn dda gennyf fod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, yn ei Adroddiad Cam 1 ar y Bil ac wrth ystyried ei ryngweithio ag Erthygl 1 o BroTOCOL 1, yn cytuno bod sail resymol glir i'r cynigion o ran ceisio hyrwyddo twristiaeth a gwella safonau llety i ymwelwyr yng Nghymru.

Mae rhyw fath o reoleiddio eiddo yn hanfodol er mwyn cyflawni'r diben hwn. Un peth sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y rheoliadau'n gyson ag Erthygl 1 o BroTOCOL 1 yw sicrhau bod yr ymyrryd yn gymesur, gan gynnwys ystyried a yw'r darpariaethau'n taro cydbwysedd teg rhwng budd y cyhoedd a hawliau eiddo unigolion.

Rydyn ni wedi datblygu'r Bil i sicrhau bod yr ymyrryd ag eiddo'n gymesur. Mae'r cymesuredd hwnnw wedi bod yn sylfaenol i rai o'r cwestiynau polisi craidd ar gyfer y Bil, gan gynnwys yr hyn y mae'r cynllun trwyddedu yn ei asesu, beth y dylid ei ofyn i ddarparwyr, a pha sicrwydd y mae'n ei gynnig i ymwelwyr ynghylch y safonau a fodlonir mewn llety ymwelwyr a reoleiddir yng Nghymru. Mae hyn wedi llywio'r penderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud ynglŷn â natur y cynllun trwyddedu.

Fel yr wyf wedi trafod yn ystod craffu Cyfnod 1, mewn perthynas â'r safonau addasrwydd penodol, mae'r Bil yn pennu gofynion ychwanegol cymedrol i ddarparwyr llety ymwelwyr y tu hwnt i'r canllawiau a'r rhwymedigaethau presennol. Bydd y Bil yn hyrwyddo llety yng Nghymru heb yr angen am fuddsoddi ychwanegol sylweddol gan ddarparwyr sydd eisoes yn gwneud yr hyn a ddisgwylir ganddyn nhw

Rydyn ni wedi dewis y safonau addasrwydd penodol, sy'n cael eu asesu adeg gwneud cais, yn fwriadol i sicrhau nad yw'n anodd i ddarparwyr dangos eu bod wedi'u bodloni, ac i roi sicrwydd i ymwelwyr bod y safonau allweddol wedi cael eu bodloni. Mae'r dewis hwn yn tynnu sylw at y cydbwysedd y mae'r Bil yn ei daro – er enghraifft drwy beidio â'i gwneud yn ofynnol cynnal archwiliad ar gyfer pob cais i gadarnhau bod y safon addasrwydd cyffredinol wedi cael ei bodloni; neu i'r gwrthwyneb tanseilio'r sicrwydd y mae'r cynllun yn ei gynnig i ymwelwyr drwy drwyddedu llety heb wirio dogfennau i gadarnhau bod safonau penodol yn cael eu bodloni. Os gwneir rheoliadau i addasu neu estyn gofynion y cynllun yn y dyfodol, bydd angen i'r rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'w dadansoddiad hawliau dynol eu hunain, a bydd angen iddyn nhw fod yn gyson ag Erthygl 1 o BroTOCOL 1 hefyd.

Mae hyn yn tynnu sylw at y ffordd, i'r rhai sy'n gwneud y pethau iawn, mae'r Bil yn cyflawni ei amcanion wrth beidio â rhoi baich gormodol ar ddarparwyr llety. Rwyf hefyd wedi nodi yn y Pwyllgor yn ystod y gwaith craffu mai nod y Bil hwn yw cefnogi cydymffurfio â'r safonau y mae'n eu gosod, yn hytrach na mynd ati i roi camau gorfodi ar waith ar unwaith. Fodd bynnag, mae'r Bil hefyd yn cynnwys amddiffyniadau i ddarparwyr yn yr achosion hynny lle mae angen cymryd camau gorfodi.

Gan ddefnyddio pwerau mynediad, yn enghraifft, fel y trafodwyd yn y Pwyllgor, mae cyfres o amddiffyniadau yn y Bil sy'n cyfyngu ar yr amgylchiadau lle y gellir eu defnyddio. Yn gyntaf, mae angen i Weinidogion Cymru fod â sail resymol dros gredu bod amod trwydded wedi cael ei dorri neu fod darparwr llety yn darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol. Wedyn mae angen iddyn nhw ystyried bod mynediad i'r eiddo'n angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn penderfynu a yw hyn yn wir. Rhaid rhoi rhybudd rhesymol ac ni ellir defnyddio grym i gael mynediad. Wedyn, os nad yw'r darparwr llety yn fodlon caniatáu mynediad i'r eiddo i swyddog awdurdodedig, neu os nad yw'r eiddo wedi'i drwyddedu, byddai'n rhaid gwneud cais i lys ynadon am warant. Mae hyn yn dangos, yn yr agwedd hon ar y Bil, sut rydyn ni,

unwaith eto, wedi ceisio gwneud y Bil yn ddigon cadarn i fod yn effeithiol, ond yn gymesur o ran ei effaith ar ddarparwyr.


Mae'r cydbwysedd rhwng y baich ar ddarparwyr llety a sicrhau bod y Bil yn ddigon cadarn i gyflawni ei amcan wedi bod yn ystyriaeth ganolog drwy'r holl broses o'i ddatblygu, ac roedd yn dda gennyf fod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi dod i'r un casgliad yn eu hadroddiad ag y gwnes i: sef "bod y Bil yn cydbwyso hawliau darparwyr llety ymwelwyr yn briodol â'r budd cyffredinol a'i fod felly'n cydymffurfio ag Erthygl 1 Protocol 1".

Gofynnodd y Pwyllgor imi hefyd ddweud a wyf yn teimlo unrhyw angen i adolygu fy nghasgliadau ar hawliau dynol o ganlyniad i'r dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod Cyfnod 1. Rwy'n hapus i gadarnhau nad wyf yn credu bod angen gwneud hynny, ac rwy'n parhau i fod yn fodlon bod y Bil yn gyson â hawliau'r Confensiwn.

Gobeithio y bydd yr esboniad hwn yn helpu'r Pwyllgor, ac Aelodau ar draws y Senedd, wrth ystyried y Bil cyn y drafodaeth am egwyddorion cyffredinol y Bil ar 13 Ionawr, ac rwy'n gobeithio y bydd yn annog Aelodau i gefnogi'r Bil i symud ymlaen i'r cam nesaf o graffu. Edrychaf ymlaen at drafod y Bil ymhellach yn y ddadl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Cyllid er gwybodaeth.

Yn gywir,



A handwritten signature in blue ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, flowing style.

Mark Drakeford AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language